

Adnabod Awdur

# Gareth William Jones

Llyfrau gan Gareth William Jones

Cyfres Mewnwr a Maswr

(Gwasg Carreg Gwalch):

**Brwydr y Brodyr** £4.50

**Dau Ddewis** £4.50

**Siom, Syndod a Sws** £4.50


**Triciau, Taclau a Thaith** £4.50

**Tân ar Groen** £4.50

**Ffrainc Amdani!** £4.95

**Pobl y Llyfrau** (Llyfr mawr)

£14.99 (CBAC)



Adnabod Awdur

# Gareth William Jones

**Dyddiad Geni:** 25 Gorffennaf 1947

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Cefais fy ngeni yn Nhregarth a fy magu ym Methesda, Dyffryn Ogwen.

**Ble cawsoch chi eich addysg?**  
Yn Ysgol Penybryn, Bethesda ac Ysgol Dyffryn Ogwen.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Yn yr ysgol gynradd, roeddwn yn hoffi straeon Miss Williams ar brynawn ddydd Gwener ac yn casáu cinio ysgol bob dydd. Yn yr ysgol uwchradd roeddwn yn hoffi actio mewn dramâu ac yn casáu arholiadau.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?**  
Dydw i heb dyfu i fyny eto!

**Beth oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Hen lyfr o'r enw *Dyddiau Ysgol*, sef casgliad i blant o ddarnau allan o nofelau Daniel Owen, oedd yn ffantastig am ysgrifennu stori. Mae'r llyfr yn dal i fod gen i er ei fod yn syrthio'n ddarnau erbyn hyn – mae o mor hen.

**Beth yw eich hoff ddiddordebau?** Ysgrifennu llyfrau i bobl sydd eisiau eu darllen, chwarae golff a garddio.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**  
Chwarae hefo fy wŷr bach, Steffan.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**  
Bwlis o bob oed.

**Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?** Ar ôl clywed straeon Miss Williams a darllen straeon Daniel Owen a dweud straeon wrth fy mhlant fy hun.

**Pa un oedd eich llyfr cyntaf?** *Anwesu Nodyn*, nofel am ferch a fabwysiadodd gath arbennig. Enillodd y nofel wobwr yn Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau. Efallai y cewch chi gyfle i'w darllen hi cyn bo hir.

**Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?**  
Os yw'r syniadau'n llifo mae hi'n hawdd; os nad ydyn nhw, mae hi'n haws chwarae golff neu arddio...

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** Daeth rhai o'r syniadau ar gyfer y gyfres *Mewnwr a Maswr* oddi wrth fy mab Llŷr; daw rhai o ddigwyddiadau bob dydd a rhai o'r awyr.


**Ydych chi'n teimlo ei bod yn bwysig i ysgrifennu mewn dull cyfoes i apelio at gynulleidfa ifanc?** Dwi'n hoffi gosod sialens i'r darllenwyr drwy chwarae gydag amser y digwyddiadau, er enghraifft, creu dirgelwch a thafllu ambell i air anghyfarwydd i mewn. Ond yr hyn sy'n bwysig yw ysgrifennu nofel ddifyr.

**Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Credwch bob amser fod rhywun yn rhywle eisiau darllen beth y'ch chi wedi'i ysgrifennu.

**Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu selio arnoch chi?**  
Nac oes, ond mae rhai o'r cymeriadau yn credu yn yr un pethau â fi.

**Pa un yw eich hoff lyfr?** *Tân ar Groen* oherwydd fy mod i wedi ceisio rhannu fy nheimladau am fwllis.

**Pa un yw eich hoff gymeriad?** Tractor, oherwydd am ryw reswm mae wedi datblygu i fod yn gymeriad doniol.



**Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?** Fy oed a'm golwg.

**Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?** Drama dda a newyddion.

**Beth yw eich hoff fwyd?** Pastai Cernyw.

**Beth yw eich hoff atgof?** Gwyllo fy merch, Rhian Heledd, yn cael ei geni...

**Beth yw eich hoff le yn y byd?** Y gwely.

**Oes gyda chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall?** Fy nheulu.

**Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?** Fy wŷr, Steffan Llŷr.

**Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru?** Dwi'n chwyrnu pan dwi'n cysgu.